Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd:
Andrew Green
Prif Weithredwr:
Dr Ioan Matthews

Ffôn:
01267 610400
Ebost:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk
www.colegcymraeg.ac.uk

CYLCHLYTHYR

Cynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dyddiad:	23 Mawrth 2016
Cyfeirnod:	15/03
At:	Penaethiaid sefydliadau addysg uwch Cymru, Grŵp Ymgynghorol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol, Penaethiaid Addysg Bellach Cymru
Ymateb Erbyn:	Canol Dydd 29 Ebrill 2016
Cyswllt:	Dr Dafydd Trystan d.trystan@colegcymraeg.ac.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
http://www.colegcymraeg.ac.uk/cylchlythyron

Ym Medi 2012 lansiwyd Cynllun Academaidd cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan Weinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Roedd y cynllun yn ffrwyth ymgynghoriad gyda'r prifysgolion a thrafodaeth eang ym Mwrdd Academaidd y Coleg, ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer y broses o gynllunio academaidd y byddai'r Coleg yn ei gweithredu am y cyfnod nesaf.

Gyda chyfnod cyntaf y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (2011-16) yn tynnu at ei derfyn a thrafodaethau sylweddol am ddatblygiad y Coleg i'r dyfodol yn digwydd, mae'n amserol ac yn addas i lunio Cynllun Academaidd newydd. Mae'r Bwrdd Academaidd wedi cychwyn ar broses drwy gynnal trafodaeth gychwynnol yn Chwefror 2016. Mae'r Coleg bellach yn gwahodd ymatebion gan y sefydliadau addysg uwch a phartneriaid eraill fel rhan o'r broses cynllunio academaidd. Mae'r Coleg wedi llunio cyfres o gwestiynau pwrpasol a fydd yn rhoi ffrâm ar gyfer y drafodaeth. Gofynnir i'r sefydliadau addysg uwch ystyried y cwestiynau (a gyflwynir fel atodiad i'r cylchlythyr hwn) ac, os dymunant, i gyflwyno unrhyw sylwadau neu wybodaeth pellach. Bydd cyfle pellach i ymgynghori ar fanylion yn ystod tymor yr haf.

Bydd cynlluniau'r Coleg at y dyfodol, gan gynnwys cefnogaeth i'r Cynllun Academaidd newydd yn dibynnu ar yr adnoddau a'r gyllideb a ddynodir ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Ar hyn o bryd mae hynny yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar benderfyniadau polisi a wneir gan Lywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai. Ond, er gwaethaf yr ansicrwydd sydd yn gwneud cynllunio yn anodd, mae'r Coleg yn grediniol bod angen bwrw ati i baratoi Cynllun newydd a'n bwriad yw iddo ddod yn weithredol, o leiaf ar ffurf interim, yn gynnar ym mlwyddyn academaidd 2016/17.

Yn y Cynllun gwreiddiol nododd y Coleg ei genhadaeth. Bydd y Cynllun newydd yn diweddaru'r datganiad cenhadaeth ac yn ystyried pa elfennau sydd angen eu newid / datblygu. Mae'r datganiad hwn yn gosod ffrâm i'r cynllun ar sawl wedd ac felly croesewir unrhyw sylwadau. Yn benodol yn sgil Adroddiad Hazelkorn a'r gwaith a wnaed ar gyfer Adolygiad Diamond, mae angen ystyried pa mor addas yw'r datganiad yng nghyd-destun sector addysg uwch (ac o bosib addysg ôl-orfodol) sy'n wynebu cyfnod o newid sylweddol. Mae'r paragraffau penodol o 2012 yn cael eu nodi isod er cyfleuster:

'Craidd cenhadaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw'r egwyddor syml ond pwerus fod gan bob myfyriwr yr hawl i addysg uwch cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf.

Tasg gymharol hawdd yw datgan y fath egwyddor sylfaenol – daw'r her wrth greu Cynllun Academaidd sy'n gosod yr egwyddor ar waith.

Bwriad y Cynllun hwn yw amlinellu sut y mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn bwriadu gweithredu'r egwyddor hon. Wrth wneud hynny, byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried dwy elfen ar yr egwyddor greiddiol hon yn gyfochrog, sef yr hawl i addysg yn Gymraeg a'r angen i sicrhau bod yr addysg honno o'r ansawdd uchaf posibl. Byddwn yn cynllunio ar draws holl ystod darpariaeth addysg uwch gan sicrhau sylw dyledus i raddau sylfaen, graddau israddedig, graddau meistr a graddau ôl-raddedig drwy ymchwil. Os rydym am wreiddio addysg uwch cyfrwng Cymraeg am genhedlaeth a mwy, rhaid adlewyrchu holl ystod ac ehangder y ddarpariaeth, yn hytrach na chanolbwyntio ar rai lleoliadau neu ddisgyblaethau yn unig.

Gweledigaeth genedlaethol sydd gan y Coleg Cymraeg. Ein bwriad yw cryfhau'r ddarpariaeth bresennol, a datblygu darpariaeth o'r newydd mewn lleoliadau a/ neu ddisgyblaethau newydd. Mae'r amcanion a osodir yn y Cynllun hwn yn rhai uchelgeisiol, ond ymrwymwn i weithio gyda holl brifysgolion Cymru i'w gwireddu. Byddwn hefyd yn cydweithio yn rhagweithiol gyda phartneriaid eraill fydd yn allweddol i sicrhau llwyddiant y Cynllun, gan gynnwys ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach a chyflogwyr.'

Atodiad 1:

Croesewir ymatebion i'r cwestiynau a nodir isod fesul un, neu yn unol a themâu.

Mae sawl thema yn amlygu eu hunain gan gynnwys:

- Cynaliadwyedd darpariaeth (4, 7, 9, 10)
- Ehangder rôl y Coleg (1, 15, 16)
- Datblygu cydweithio (2, 5, 6)
- Adnoddau (3)
- Cynllunio Academaidd (8, 11, 12, 13, 14)

Nodir y cwestiynau islaw gyda rhywfaint o gyd-destun:

TESTUN TRAFOD 1: Ydy'r cydbwysedd rhwng y gwahanol fathau o ddarpariaeth addysg uwch yn addas? A ddylid blaenoriaethu mathau penodol o ddarpariaeth addysg uwch yn ystod y cyfnod nesaf?

Canolbwyntiwyd yn benodol ar ddatblygu graddau israddedig (llawn amser). Mae gwaith y Coleg o ran graddau ôl-raddedig drwy ymchwil wedi canolbwyntio ar y rhaglen PhDs. Cymharol brin fu'r datblygiadau ar lefel Meistr – yn wir, mae ambell un o'r cyrsiau a sefydlwyd dan nawdd y Coleg wedi profi anawsterau wrth recriwtio myfyrwyr. Mae rhywfaint o ddarpariaeth ar lefel graddau sylfaen wedi datblygu, ond mae hynny wedi dod wrth i adrannau / sefydliadau adnabod cyfle a chydweithio gyda'r Coleg i ymateb i'r cyfle hwnnw. Does dim datblygiad sylweddol wedi bod ynghylch cyrsiau byr (gweler testun trafod 15) gyda chredyd ar lefel israddedig neu ôl-raddedig.

TESTUN TRAFOD 2: Faint o bwyslais y dylid ei rhoi ar ddatblygiadau cydweithredol? Beth mae profiad y blynyddoedd cyntaf yn awgrymu wrth i ni ystyried datblygu cynlluniau pellach yn y blynyddoedd i ddod?

Mae rhychwant pur helaeth o ddatblygiadau cydweithredol wedi digwydd dan nawdd ac arweiniad y Coleg, ond mae'r cynnydd o ran modiwlau / cyrsiau cydweithredol wedi bod yn arafach nag y byddai rhai wedi disgwyl. Mae nifer o wahanol fodelau o gydweithio wedi datblygu.

TESTUN TRAFOD 3: Pa mor effeithiol yw llwyfannau adnoddau addysgiadol y Coleg? Sut mae modd eu datblygu / newid i'r dyfodol?

Bu twf sylweddol iawn yn yr adnoddau cydweithredol sydd ar gael drwy lwyfannau E-Ddysgu'r Coleg. Mae'r gwaith yma wedi profi llwyddiant o ran nifer yr adnoddau sydd wedi eu datblygu, ond mae angen ystyried faint o ddefnydd a wneir o'r adnoddau yma wrth addysgu.

TESTUN TRAFOD 4: Yn yr hinsawdd bresennol beth yw darpariaeth gynaliadwy? A beth ddylid ei wneud am y pynciau hynny lle mae angen clir am raddedigion dwyieithog ond dim cymaint o alw o du'r myfyrwyr? (gweler 10 hefyd)

Roedd yr adran hon yn y Cynllun Academaidd gwreiddiol yn canolbwyntio ar sicrhau digon o staff a myfyrwyr (ynghyd ag ymrwymiad sefydliadol) i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth. Mae'r cynllun gwreiddiol yn nodi'r angen am gyd-fuddsoddiad gyda phrifysgolion mewn meysydd lle mae traddodiad hir o addysgu yn Gymraeg, ac yn awgrymu'r niferoedd o staff a myfyrwyr fyddai'n angenrheidiol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd. Mae'r Cynllun hefyd yn cyfeirio at yr angen i ystyried yn ofalus gynyddu'r lleoliadau lle gellir astudio yn Gymraeg.

Does dim amheuaeth fod darpariaeth wedi helaethu yn sylweddol, ond mae'r datblygiad hwnnw wedi dod yn helaeth yn dilyn ariannu gan y Coleg. Ymhellach mae'n amlwg fod rhai lleoliadau yn profi anawsterau wrth recriwtio nifer ddigonol o fyfyrwyr. Mae hynny yn benodol yn her wrth i arian y Coleg Cymraeg ar gyfer cyllido darlithwyr leihau neu hyd yn oed ddod i ben dros amser.

TESTUN TRAFOD 5: Oes mwy gall y Coleg ei wneud i ddatblygu perthynas gyda chyflogwyr a'r gymdeithas yn fwy eang? Wrth ystyried adnoddau prin, a ddylid canolbwyntio ar rai sectorau yn benodol?

Mae'r Cynllun yn gosod allan yr angen i ddatblygu perthnasau hir dymor gyda chyflogwyr a meithrin graddedigion gyda'r sgiliau dwyieithog i gyfrannu'n broffesiynol i'w priod feysydd. Mae sawl llwyddiant amlwg yn y cyd-destun yma:

- Cynllun Profiad Gwaith y Coleg sy'n cynnig lleoliadau gwaith dwyieithog i 150 o fyfyrwyr bob blwyddyn.
- Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg, ble mae dros 400 o fyfyrwyr yn flynyddol bellach yn cael cyfle i wella a phrofi eu sgiliau iaith

Ar lefel llai mae partneriaeth effeithiol wedi datblygu gyda rhai cyrff allweddol e.e. y Cyngor Gofal, ac mae hyn wedi arwain at waith mewn partneriaeth ar brosiectau penodol.

TESTUN TRAFOD 6: Oes newidiadau / datblygiadau pellach y gellid eu hystyried i bartneriaeth y Coleg gyda myfyrwyr? Oes angen i fyfyrwyr chwarae rhan amlycach yn ein prosesau ar gyfer datblygu darpariaeth newydd?

Roedd ymrwymiad cadarn yn y Cynllun gwreiddiol i weithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr wrth ddatblygu ein cynlluniau. Dros y blynyddoedd diweddar mae datblygiadau sylweddol wedi bod yng nghyd-destun cynrychiolaeth myfyrwyr oddi fewn i'r Coleg gan gynnwys:

- Sylwedydd i Fwrdd y Cyfarwyddwyr
- Mwy o gynrychiolwyr ar y Bwrdd Academaidd
- Hyfforddiant penodedig i gynrychiolwyr myfyrwyr ar bwyllgorau'r Coleg
- Myfyrwyr yn eistedd ar baneli pwnc y Coleg

Er gwaethaf hyn oll mae ymwneud y myfyrwyr gyda phrosesau'r Coleg yn gallu amrywio yn fawr iawn. Mae'r Cynllun Llysgenhadon newydd hefyd yn cynnig cyfle i ddwysáu ein hymwneud gyda myfyrwyr.

TESTUN TRAFOD 7: Sut mae mesur cynnydd yn nifer y myfyrwyr? Ydy meincnod 40 credyd y flwyddyn yn ddigonol? Oes angen meincnodau eraill e.e. y sawl sy'n astudio gradd gyflawn yn Gymraeg?

Nododd y cynllun gwreiddiol yr angen i fesur cynnydd drwy ystyried faint o fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn, faint sy'n astudio 80 credyd y flwyddyn a faint sy'n astudio eu graddau yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Wedi cytuno'r Cynllun Academaidd fe newidiodd targedau Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar fyfyrwyr oedd yn astudio o leiaf 5 credyd y flwyddyn yn Gymraeg a'r myfyrwyr oedd yn astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg. Yn sgil y newid yma, bu'r Coleg yn weithgar yn monitro cynnydd tuag at 5 credyd y flwyddyn a 40 credyd y flwyddyn. Does dim asesiad ffurfiol rheolaidd wedi bod o'r niferoedd sy'n astudio o leiaf 80 credyd y flwyddyn, a bu cynlluniau pynciol y Coleg yn sicrhau fod cymaint a phosib o feysydd yn cyrraedd y trothwy 40 credyd.

TESTUN TRAFOD 8: Pa mor effeithiol yw'r paneli pwnc? A fu'r trafodaethau ar y Cynlluniau Datblygu Pynciol yn adeiladol? Sut gellir gwella'r broses?

TESTUN TRAFOD 9: Sut dylid delio gyda sefyllfaoedd lle mae nifer o brifysgolion yn deisyfu cynnig pwnc, a hynny lle mae'r nifer o fyfyrwyr yn isel? Beth am sefyllfa lle nad yw prifysgol yn deisyfu darparu – ond bod niferoedd da o fyfyrwyr?

Bwriad y Cynllun oedd y byddai pob panel pwnc yn mynd ati i lunio Cynllun Datblygu Pynciol yn dilyn themâu ac egwyddorion y Cynllun Academaidd. Fe wnaed hynny i raddau helaeth, ond roedd amrywiaeth sylweddol yn natur ymwneud y gwahanol baneli gyda'r Cynllun. Mewn rhai achosion roedd y drafodaeth yn adeiladol a bu modd adnabod llwybr ymlaen yn weddol hwylus. Mewn achosion eraill bu cryn drafodaeth, a chafwyd ambell enghraifft lle cytunwyd i gynnwys nifer helaeth o leoliadau gan nad oedd fframwaith mewn lle i ddelio gyda sefyllfaoedd lle roedd nifer sylweddol o brifysgolion yn deisyfu cynnig pwnc (a derbyn adnoddau i wneud hynny).

TESTUN TRAFOD 10: Ydy'r meincnodau a osodwyd yn wreiddiol o ran niferoedd staff a myfyrwyr yn parhau yn rhesymol? Beth yw'r goblygiadau i leoliadau sydd ddim yn cwrdd â'r meincnodau yma?

Cafwyd ymgais yn y Cynllun Academaidd i ddynodi faint o fyfyrwyr a staff a fyddai'n angenrheidiol ym mhob lleoliad er mwyn darparu ar wahanol lefelau:

- Dros 80 credyd – o leiaf 10 myfyriwr bob blwyddyn ac o leiaf 4 aelod o staff
- Dros 40 credyd – o leiaf 6 myfyriwr bob blwyddyn ac o leiaf 2 aelod o staff
- 'Pwnc niferoedd bychain' – cynllun clir mewn un brifysgol gan gynnwys buddsoddiad gan y brifysgol a thystiolaeth o alw ar ryw ffurf

Yn gyffredinol mae'n deg dweud bod y meincnodau staff wedi eu cyfarfod, ond mae'n llai amlwg fod hynny'n wir am y niferoedd myfyrwyr.

TESTUN TRAFOD 11: Y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Oes achos dros resymoli lleoliadau (neu fuddsoddiad y Coleg) mewn pynciau a ddysgir mewn nifer o leoliadau? Oes gwersi i'w dysgu o brofiad y meysydd hynny sydd wedi profi'n heriol o ran niferoedd yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau?

Araf ar y cyfan fu'r cynllunio pynciol yn y meysydd hyn. Ar draws pob un o'r meysydd cynigir darpariaeth helaeth iawn, ac mae sawl enghraifft lle cynigir darpariaeth debyg mewn sawl lleoliad.

Mae ambell bwnc arall lle mae'r niferoedd yn llai ac mae heriau wedi codi. Ar draws y Dyniaethau mae'r nifer myfyrwyr wedi aros yn uchel – er bod eu dewisiadau o ran pwnc a lleoliad yn newid dros amser. Mae cwestiwn anodd ond pwysig yn parhau – ym mha feysydd gellid dadlau fod digon o lwyddiant a galw gan fyfyrwyr i ddisgwyl i'r prifysgolion ysgwyddo'r baich cyllidol yn llwyr?

TESTUN TRAFOD 12: Y Gwyddorau Cymdeithasol ac Economaidd. O ganlyniad i'r llwyddiannau yn y meysydd yma oes achos i ail-ystyried y gefnogaeth sydd angen ar bob maes yn y clwstwr pynciau yma?

Bu tipyn o gynnydd yn y meysydd yma. Cytunwyd cynlluniau yn fuan, a bu sawl buddsoddiad cynnar o'r Cynllun Staffio. Mae sawl maes sydd wedi profi cynnydd sylweddol – a hynny o ran y nifer sy'n astudio a hefyd maint y ddarpariaeth sydd wedi datblygu.

TESTUN TRAFOD 13: Y Gwyddorau Iechyd a Gofal. Oes mwy y dylid ac y gellid ei wneud yn y meysydd iechyd a gofal, lle mae galw amlwg gan y Llywodraeth ond cynnydd araf yn y prifysgolion?

Erbyn 2016 gellid dadlau fod cynnydd sylweddol wedi bod yn y ddarpariaeth Gwyddorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Serch hynny, yn ddiweddar mae'r cynnydd wedi digwydd, a dyw'r galw gan fyfyrwyr ddim yn adlewyrchu'n llawn y ddarpariaeth sydd ar gael. Mae'r un man o gryfder traddodiadol – Nyrsio ym Mangor – wedi parhau i dyfu. Mae'r ddarpariaeth Gwaith Cymdeithasol wedi ei adfer ym Mangor. Mae'r datblygiadau mwy diweddar mewn Nyrsio (ar draws y de), Meddygaeth (Caerdydd ac Abertawe), Therapi Iaith a Lleferydd (Met Caerdydd), Bydwreigiaeth (Abertawe) yn dechrau gwreiddio ond ar hyn o bryd mae'r niferoedd myfyrwyr yn isel. Mae cymhlethdod ychwanegol gan nad yw'r ddarpariaeth ar bob adeg yn cael ei hariannu gan HEFCW ond yn hytrach drwy broses gomisiynu gan Lywodraeth Cymru (WEDS)

TESTUN TRAFOD 14: Y Gwyddorau. Sut mae modd datblygu'r farchnad myfyrwyr yn y pynciau yma? Oes enghreifftiau o arfer da o'r pynciau sy'n llwyddo y gellid ei hefelychu mewn meysydd eraill?

Mae buddsoddiad penodol wedi digwydd ym maes y Gwyddorau ac mae rhai llwyddiannau amlwg; ond mae'r niferoedd myfyrwyr yn gyffredinol yn parhau yn isel, a phrin ar y cyfan yw'r myfyrwyr sy'n awyddus i ddilyn cwrs gradd gyfan yn y gwyddorau drwy gyfrwng y Gymraeg.

TESTUN TRAFOD 15: Beth yw rôl Addysg Bellach yn y Cynllun newydd? Dilyniant? AB / AU? Datblygiad pynciol penodol mewn AB?

Ceir cyfeiriad byr at Addysg Bellach yn y Cynllun Academaidd gwreiddiol. Mae'n gynyddol amlwg fod gan Golegau Addysg Bellach rôl bwysig wrth gynnig pont i fyd Addysg Uwch; ond mae'r rôl yn ehangach na hynny wrth gwrs gyda symudiad tuag at gynnig mwy o ddarpariaeth addysg uwch mewn Colegau Addysg Bellach. Yn yr un modd, y mae cynyddu'r ddarpariaeth addysg bellach ar Lefel 3 yn bwysig o ran sbarduno dilyniant a chynyddu'r galw o du myfyrywr sydd ar hyn o bryd yn newid cyfrwng wrth symud i addysg ôl-16.

TESTUN TRAFOD 16: Oes lle i addysg ôl-gymhwyso [ôl-radd yn bennaf ond gall fod yn isradd] yn y gweithle yn y Cynllun Academaidd?

Mae cyrsiau byr (isradd neu ôl-radd) yn lled absennol o'r Cynllun. Oes lle i drafod datblygu cyrsiau Addysg Uwch (rhan amser) wedi eu credydu a fyddai efallai yn cael eu cynnig yn y gweithle?

Gofynnir am ymateb i'r cylchlythyr hwn erbyn canol dydd ar y 29ain o Ebrill, 2016. Os oes unrhyw ymholiadau dylid eu cyfeirio yn y man cyntaf at Gofrestrydd y Coleg, Dr Dafydd Trystan d.trystan@colegcymraeg.ac.uk